Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Hendy
# Heol Iscoed
# Hendy
# Pontarddulais
# SA4 0XD

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Hendy ym mhentref Yr Hendy ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin, ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae 166 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys 14 o ddisgyblion meithrin.

Mae'r ysgol yn ystyried nad yw ei dalgylch naill ai'n ffyniannus na than anfantais economaidd. Mae gan ryw chwarter o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae gan 17% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiadau o anghenion addysgol.

Daw ugain y cant o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân. Mae pedwar dosbarth yn y ffrwd Gymraeg, a phedwar dosbarth yn y ffrwd Saesneg. Mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Nid oes unrhyw blant 'sy'n cael gofal' neu ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn mynychu'r ysgol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Hendy yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,427 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r isafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Sirol Hendy yn safle 70 o'r 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da;
- bod ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol;
- bod darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- bod agweddau disgyblion at ddysgu yn dda ac ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn; a
- bod gan y staff addysgu a'r staff cymorth berthynas waith gref iawn gyda'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod llawer o agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn wan;
- nad yw prosesau i nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn cael eu hymgorffori ym mywyd a gwaith yr ysgol;
- bod cynllunio gwella ysgol yn aneffeithiol;
- mai cyfyngedig fu'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol ar waith;
- nad yw gweithdrefnau diogelu a rheoli perfformiad yn bodloni gofynion statudol; ac
- nid yw gweithdrefnau'r corff llywodraethol ar gyfer dwyn yr ysgol i gyfrif wedi cael eu datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol a'r corff llywodraethol:

A1 fynd i'r afael ar unwaith ag anghysondebau yng ngweithdrefnau diogelu a rheoli perfformiad yr ysgol i fodloni gofynion statudol;

A2 gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar bob lefel;

A3 sefydlu systemau trylwyr i arfarnu cryfderau a gwendidau'r ysgol a gwella cynlluniau datblygu'r ysgol a'i monitro;

A4 datblygu gallu'r corff llywodraethol i ddwyn yr ysgol i gyfrif;

A5 sicrhau cysondeb mewn asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn unol â'r arferion gorau a arsylwyd;

A6 datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm;

A7 parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus; a

A8 gwella safonau glanweithdra, addurno mewnol a dodrefnu ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r ysgol yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn 2011 yng nghyfnod allweddol 1, roedd perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 50% o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd lefelau perfformiad mewn Cymraeg ychydig yn is na'r cyfartaledd teuluol ac yn y 25% isaf o'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n perfformio ar lefel uwch na'r disgwyl mewn Cymraeg ychydig yn uwch na'r cyfartaledd teuluol. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r perfformiad gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd teuluol. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion lefel uwch mewn Saesneg yn 2011. O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ym mhob un o'r pynciau wedi bod yn y 50% is yng nghyfnod allweddol 1 yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, roedd y perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd lefelau perfformiad mewn gwyddoniaeth ychydig yn is na'r cyfartaledd teuluol, ond yn dal yn y 50% uchaf o gymharu â'r lefelau perfformiad mewn ysgolion tebyg.

Roedd canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n perfformio ar lefel uwch na'r disgwyl mewn mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd teuluol yn 2011. Roedd perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaleddau teuluol. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgyblion y lefelau uwch mewn Cymraeg neu wyddoniaeth yn 2011, ac ni chyflawnodd unrhyw fechgyn y lefel uwch mewn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 1, nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched. Fodd bynnag, mae bechgyn wedi perfformio'n well na merched mewn mathemateg ar y lefelau uwch mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg. Mae bechgyn wedi perfformio'n well na merched am dair o'r pedair blynedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ac mewn gwyddoniaeth ar y lefel uwch.

Mae craffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da ar draws yr ysgol mewn Cymraeg fel mamiaith ac ail iaith, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda ar y cyfan, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

Yn y dosbarth meithrin a'r derbyn, mae medrau llafar a llythrennedd disgyblion yn datblygu'n dda. O oedran cynnar, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig i ynganu geiriau newydd, ac maent yn magu hyder fel darllenwyr wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol, a gallant ysgrifennu darnau hwy tuag at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yn y dosbarthiadau hŷn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda mewn gwaith llafar, gan siarad yn naturiol a hyderus mewn cyd-destunau amrywiol. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Gall llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 drafod eu hoff awduron neu lyfrau blaenorol y maent wedi'u darllen a gallant esbonio beth y maent yn ei hoffi amdanynt. Roedd pob un o'r darllenwyr llai abl yn gallu defnyddio strategaethau adeiladu geiriau yn annibynnol i ymdrin â geiriau anodd. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn dangos dilyniant da. Gall disgyblion hŷn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau ysgrifenedig, gan ddefnyddio atalnodi yn gywir.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd byw yn iach. Mae gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol ran bwysig yn yr ysgol, yn cynnwys ymweliadau gan unigolion o fyd chwaraeon. Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn dda; er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn rhedeg siop ffrwythau'r ysgol ac yn gweithio fel monitoriaid amser chwarae ar ôl cael hyfforddiant fel arweinwyr chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol mewn grwpiau neu dimau i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrannu'n ddigonol at gynllunio'r hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r gymuned. Mae gan y cyngor ysgol a'r eco-gyngor ran weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion sy'n cymryd rhan yn hyderus bod eu llais yn cael ei glywed.

Mae presenoldeb wedi codi ychydig yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'r gyfradd, sef 92%, yn parhau i fod yn isel, ac mae'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol ac ysgogol ar gyfer disgyblion, ac mewn llawer o achosion, maent yn cydweithio'n dda i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer dosbarthiadau o'r un grwpiau oedran. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o grwpiau blwyddyn, nid oes digon o gydweithio rhwng y dosbarthiadau, ac mae cynnwys a safon y ddarpariaeth yn anghyson.

Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer nodi a herio disgyblion mwy abl wedi cael eu datblygu digon.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau llafaredd, darllen a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn anghyson. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith mewn lleiafrif o ddosbarthiadau yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth addas ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig a dinasyddiaeth fyd-eang yn yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynd ati'n weithgar i wella amgylchedd yr ysgol, ac mae nifer o erddi ar dir yr ysgol. Mae disgyblion o Flwyddyn 2 ymlaen yn mynychu ystod addas o glybiau chwaraeon a choginio ar ôl yr ysgol, sy'n cael effaith dda ar eu hiechyd a'u lles.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu at y brwdfrydedd at ddysgu y mae disgyblion yn ei ddangos bron ym mhob gwers. Mae awyrgylch tawel a threfnus bron ym mhob dosbarth, ac mae hyn yn helpu disgyblion i weithio'n ddiwyd a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig yn ystod gweithgareddau. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n dda at gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae'r addysgu'n dda. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw tasgau yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigon da. Mae cyflwyniadau yn ysgogol, yr amcanion dysgu'n glir, a gwneir defnydd effeithiol o gwestiynau i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae llawer o ddosbarthiadau yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Mae adborth ysgrifenedig a llafar da ochr yn ochr â thargedau unigol yn helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mewn rhai dosbarthiadau, megis dechrau datblygu y mae'r strategaethau hyn.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn ofalus gan ddefnyddio data helaeth. Mae cofnodion unigol disgyblion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn i athrawon gynllunio ar gyfer datblygiad a chymorth disgyblion. Mae'r adroddiadau i rieni yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae awyrgylch yr ysgol yn ofalgar a chyfeillgar. Mae perthnasoedd da rhwng plant ac oedolion ac maent wedi'u seilio ar barch a chwrteisi. Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod beth i'w wneud pe bai achosion o fwlio yn codi.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, yn cynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae partneriaethau effeithiol gyda'r awdurdod lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, a Swyddog Cyswllt yr Heddlu, ac mae pob un ohonynt yn cynnig cymorth priodol i'r ysgol a'r disgyblion.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i nodi a mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â chynnydd disgyblion a hysbysu rhieni am Gynlluniau Addysg Unigol disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i rieni gyfrannu at adolygu'r cynlluniau yn anghyson. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth da, ac mae gweithgareddau'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol wedi diwygio ei pholisi diogelu yn ddiweddar, ond nid yw'r corff llywodraethol wedi'i gadarnhau eto ac nid yw'r staff yn gwybod am y newidiadau allweddol i'r polisi. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu yn anfoddhaol gan nad yw mwyafrif y staff wedi cael hyfforddiant diweddar ac nid ydynt yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sydd ag ethos gofalgar cryf. Gall disgyblion fanteisio ar holl feysydd darpariaeth yr ysgol a dangos parch at amrywiaeth.

Mae arddangosiadau ystafelloedd dosbarth yn lliwgar ac ysgogol ac yn datblygu dysgu'r disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol ystod foddhaol o adnoddau i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu, er bod rhai ohonynt mewn cyflwr gwael.

Mae tir yr ysgol yn eang ac yn cael ei gynnal yn eithaf da, ac mae'n amgylchedd priodol ar gyfer chwarae a dysgu. Fodd bynnag, mae glanweithdra'r tu mewn i'r ysgol yn anfoddhaol. Mae llawer o'r ffabrig mewnol a'r dodrefn yn yr ysgol mewn cyflwr gwael.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Nid oes gan yr ysgol weledigaeth strategol gydlynus a chytûn. O ganlyniad, mae staff yn aneglur ynglŷn â'u rolau a'u meysydd cyfrifoldeb ac mae eu gwybodaeth am flaenoriaethau'r ysgol yn gyfyngedig. Anaml y mae uwch reolwyr yn cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol ac nid ydynt yn cefnogi a herio pawb yn ddigonol i wneud eu gorau. Nid oes gan yr ysgol broses briodol ar gyfer rheoli perfformiad ac ni chaiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng yr uwch dîm rheoli. Nid yw'r broses wedi canolbwyntio digon ar graffu ar dystiolaeth uniongyrchol, ac o ganlyniad, nid yw'r uwch dîm rheoli'n gwybod beth yw cryfderau a gwendidau'r ysgol yn ddigon da. Nid yw'r broses wedi nodi a yw pob athro'n bodloni eu targedau perfformiad yn gadarn ychwaith.

Mae'r corff llywodraethol wedi elwa ar yr arweiniad a roddodd cadeirydd newydd y llywodraethwyr yn ddiweddar, ac o ganlyniad, maent yn dechrau bod yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu

o hyd y mae eu rôl fonitro. Ar hyn o bryd, nid ydynt yn cael digon o wybodaeth gan y pennaeth i helpu arwain cyfeiriad strategol yr ysgol neu herio'r arweinyddiaeth yn ddigon trylwyr. Yn ychwanegol, nid ydynt wedi sicrhau bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn glir nac yn sicrhau y glynir atynt yn yr ysgol.

Mae rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus ac ymglymiad â chymunedau dysgu proffesiynol yn enghreifftiau o lwyddiant yr ysgol o ran bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw prosesau hunanarfarnu'r ysgol wedi cael eu datblygu digon. Mae'r uwch dîm rheoli wedi dechrau dadansoddi data ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6, ond nid ydynt yn gwneud digon o arsylwadau ystafell ddosbarth uniongyrchol nac yn craffu ar waith disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, cyfyngedig yw eu dealltwriaeth o safonau disgyblion mewn pynciau unigol.

Er bod yr adroddiad hunanarfarnu wedi nodi nifer o flaenoriaethau addas, nid yw'n ddigon cywir o ran llawer o'i farnau. Mae hyn yn dangos nad yw'r arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn ddigon da.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn offeryn effeithiol i yrru'r ysgol yn ei blaen. Nid yw'n cynnwys adolygiad o'r cynllun blaenorol ac nid yw'n cynnwys unrhyw dargedau mesuradwy ystyrlon ychwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r corff llywodraethol i ddwyn yr ysgol i gyfrif, ac mae'n rhwystro eu rôl fel ffrindiau beirniadol yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu diwethaf. Nid yw'r uwch dîm rheoli wedi adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion blaenorol yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill a dwy ysgol uwchradd yn y dalgylch trwy gymunedau dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn ar ddeilliannau disgyblion. Yn yr ysgol, nid yw staff yn rhannu arfer orau na'u gwybodaeth broffesiynol mor llwyddiannus ag y gallent eto i sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu hintegreiddio'n effeithiol ym mhob dosbarth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac mae hyn yn helpu i gyfoethogi a chefnogi dysgu a lles disgyblion.

Mae perthynas dda yn bodoli gyda'r rhieni ac maent yn codi arian i brynu adnoddau ychwanegol. Mae partneriaethau cryf ar waith rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r Fenter Iaith leol. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig cyrsiau Cymraeg i rieni ac yn eu helpu i ddatblygu medrau rhifedd er mwyn cefnogi eu plant yn eu gwaith ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda staff o'r lleoliad cyn-ysgol, ysgolion clwstwr a'r ysgol uwchradd leol i gynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau trefniadau pontio da a pharhad mewn dysgu. Mae staff a disgyblion yn yr ysgol yn elwa ar y cysylltiadau

gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant, trwy dderbyn hyfforddeion ar leoliadau hyfforddiant i athrawon.

Mae cysylltiadau agos â’r gymuned leol a’r capeli, ac fe gaiff y rhain ddylanwad cadarnhaol ar ansawdd profiadau disgyblion ac maent yn helpu i ffurfio cysylltiad cymunedol agos.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff â chymwysterau addas sy’n gwneud eu gwaith yn effeithiol ar y cyfan. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio’n dda i gyflwyno’r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rheoli staff yn dda.

At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn bwrpasol. Mae’r ysgol yn defnyddio arbenigedd staff yn dda i gefnogi meysydd y cwricwlwm ac anghenion arbennig.

Caiff adeilad yr ysgol ei reoli mewn modd anfoddhaol. Mae diffyg trylwyredd o ran cynnal a chadw’r adeilad o ddydd i ddydd, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar ansawdd yr amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion a staff.

Mae’r ysgol yn cysylltu ei hadnoddau ariannol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a gwella darpariaeth trwy’r cynllun datblygu ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 2 yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan tan 2011.

Mae’r perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion a Chymru am y pedair blynedd diwethaf. Mae’r perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan tan 2011. Roedd y perfformiad mewn llafaredd ac ysgrifennu Cymraeg ychydig yn is na chyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ar gyfer 2011, gyda darllen yn uwch. Roedd perfformiad mewn llafaredd ychydig yn is na’r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol hefyd ar gyfer Saesneg yn 2011, gyda darllen ac ysgrifennu’n uwch.

Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan tan 2011.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y pedair blynedd diwethaf ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2008 a 2010.

O gymharu ag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd y canlyniadau ar gyfer cyfnod allweddol 1 yn 2011 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion mewn Cymraeg, ac yn y 50% is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae canran y disgyblion sy’n perfformio ar lefel 3 mewn Cymraeg wedi cymharu’n ffafriol gyda chyfartaleddau teuluol am y pedair blynedd diwethaf ond mae wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan am y tair blynedd diwethaf. Mewn Saesneg, roedd canrannau’n uwch na chyfartaleddau teuluol a chenedlaethol yn 2009 a 2010, ond yn is yn 2008 a 2011. Mewn mathemateg, mae perfformiadau wedi bod yn is na’r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol am dair o’r pedair blynedd diwethaf.

Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn is na’r cyfartaledd teuluol am dair o’r pedair blynedd diwethaf ac yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol am y pedair blynedd diwethaf, yn cynnwys 2011.

Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched ar lefel 2, heblaw bod bechgyn wedi tanberfformio o gymharu â’r teulu mewn llafaredd a darllen Saesneg yn 2011. Hefyd, ar lefel 3, mae bechgyn wedi perfformio’n well na merched am dair o’r pedair blynedd diwethaf, yn cynnwys 2011.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 4 yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion a Chymru gyfan am y tair blynedd diwethaf.

Mae’r perfformiad mewn Saesneg ar lefel 4 wedi bod yn uwch na chyfartaleddau’r teulu o ysgolion a Chymru am y tair blynedd diwethaf.  Roedd y perfformiad mewn llafaredd ychydig yn is na’r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ar gyfer 2011, gyda darllen ac ysgrifennu’n uwch.

Roedd y perfformiad mewn Cymraeg yn uwch na’r cyfartaledd teuluol tan 2011 ac mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am y pedair blynedd diwethaf. Roedd y perfformiad mewn llafaredd ychydig yn is na’r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol ar gyfer 2011, gyda darllen ac ysgrifennu’n uwch.

Mewn mathemateg, roedd perfformiad yn uwch na’r cyfartaledd teuluol tan 2011 ac mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am y pedair blynedd diwethaf.

Mewn gwyddoniaeth, roedd perfformiad yn uwch na’r cyfartaledd teuluol yn 2009 a 2010 ac mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am y tair blynedd diwethaf.

O gymharu ag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ran disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae’r canlyniadau ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion mewn mathemateg, a’r 50% uwch mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth.

Mae canran y disgyblion sy’n perfformio ar lefel 5 mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod yn is na chyfartaleddau’r teulu a Chymru mewn tair o’r pedair blynedd diwethaf. Nid oes yr un disgybl wedi cyflawni lefel 5 mewn Cymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf; ni chyflawnodd unrhyw fechgyn lefel 5 mewn Saesneg yn 2011.

Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn uwch na’r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol am ddwy o’r pedair blynedd diwethaf, yn cynnwys 2011.  Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi bod yn is na’r cyfartaledd teuluol a chenedlaethol am dair o’r pedair blynedd diwethaf, ac ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 5 yn 2011.

Nid oes unrhyw dueddiadau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched mewn Cymraeg a Saesneg.  Fodd bynnag, mae bechgyn wedi perfformio’n well na merched mewn mathemateg ar lefel 4 a lefel 5 ac mewn gwyddoniaeth ar lefel 5.

Mae’r cynnydd a wna disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn amrywio.  Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn gwneud cynnydd ychydig yn well na’r rhai yng nghyfnod allweddol 2.  Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â’u gallu ar y cyfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Llenwyd yr holiadur gan ddeuddeg o rieni neu ofalwyr.

Mae pob un o'r rhieni'n teimlo bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, ei fod/bod yn gwneud cynnydd ac wedi ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yr ysgol. Mae pob rhiant hefyd yn teimlo bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol a'i fod/bod yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod y staff yn dangos parch at y plant a'u bod yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae llawer o rieni'n mynegi boddhad cyffredinol â'r ysgol; maent yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae llawer ohonynt hefyd yn credu bod plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, bod yr addysgu'n dda a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau, ac maent yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan saith deg naw o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt bryderon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr athrawon a'r oedolion yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd; maent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i'w holi os ydynt yn gweld gwaith yn anodd a bod yr ysgol yn eu helpu i gadw'n iach hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff rheolaidd, bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn teimlo bod bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith yn y dosbarth. Mae'r ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr yn cyd-fynd â'r ymatebion yn genedlaethol ar y cyfan.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stella Gruffydd | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| Tudur Williams | Arolygydd Lleyg |
| Sian Hart | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Harries (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.